OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 299

# Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵ r (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

**Diddymiadau ac eithriadau**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**1**) wedi'i ddiddymu gydag effaith o 1 Ebrill 2000 i'r graddau ei fod yn gymwys i Gymru.

(2) Heb ragfarnu adran 16(1) o Ddeddf Ddehongli 1978(**2**), bydd darpariaethau'r Gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau'n weithredol ar 1 Ebrill 2000 ac ar ôl hynny, at ddibenion y canlynol ac mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) unrhyw newid ar restr mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau a wneir o dan adran 58(**3**) o'r Ddeddf (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) o ran y swm taladwy ar gyfer hereditament am gyfnod perthnasol yn ôl diffiniad yr adran honno.

(**1**) O.S. 1994/3285

(**2**) 1978 p.30.

(**3**) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 (p. 14), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3) ac adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).